COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O RAN O'R FFIN RHWNG SIROEDD CADWEDIG POWYS A MORGANNWG GANOL

ADRODDIAD A CHYNIGION

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O RAN O'R FFIN RHWNG SIROEDD CADWEDIG POWYS A MORGANNWG GANOL

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB O'R CYNIGION

3. CWMPAS A NOD YR AROLWG

4. CYNIGION DRAFFT

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

6. ASESIAD

7. CYNIGION

8 CYDNABYDDIAETHAU

9 Y CAMAU NESAF

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 2039 5031
Rhif Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost:cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

FSC

Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

AROLWG O RAN O'R FFIN RHWNG SIROEDD CADWEDIG POWYS A MORGANNWG GANOL

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â'r Cyfarwyddyd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 27 Chwefror 2009, rydym ni, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn), wedi cwblhau'r adolygiad o'r ffin rhwng siroedd cadwedig yn yr ardal a nodir yn y Cyfarwyddyd. Ceir copi o'r Cyfarwyddyd yn Atodiad 1. O dan y Cyfarwyddyd roedd gofyn i'r Comisiwn adolygu'r ffin rhwng y siroedd cadwedig Powys a Morgannwg Ganol. Mae hyn yn dilyn ein hadolygiad diweddar o ran o'r ffin rhwng Sir Powys a Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn Ardal Pontsticill.

2. CRYNODEB O'R CYNIGION

2.1 Rydym yn cynnig newid mân i'r ffin rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a Phowys er mwyn adlewyrchu'r newidiadau diweddar i'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn sir gadwedig Morgannwg Ganol a Sir Powys yn ardal Pontsticill. Ceir cynllun o'r newid arfaethedig yn Atodiad 4.

3. CWMPAS A NOD YR ADOLYGIAD

3.1 Mae Adran 54(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf) yn nodi y gall y Comisiwn, o ganlyniad i arolwg a gynhelir ganddynt, gyflwyno cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweithredu newidiadau yn ardal sir gadwedig sy'n ymddangos yn ddymunol i'r Comisiwn, o ystyried, yn benodol, ddibenion cadw siroedd cadwedig.

Cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru

3.2 Yn ei lythyr i fynd gyda'r Cyfarwyddyd nododd y Gweinidog ei fod wedi cytuno i weithredu ein hargymhellion mewn perthynas â'r ffin rhwng Sir Powys a Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ardal Pontsticill. Ceir cynllun o'r newidiadau arfaethedig yn Atodiad 5. Bydd y newidiadau a ddangosir yn Atodiad 5 yn golygu na fydd ffiniau'r awdurdodau unedol yn yr ardal a effeithir gan y newid yn cyfateb i ffiniau siroedd cadwedig Powys a Morgannwg Ganol mwyach, ac felly'n creu anghysondeb. Mae'r adolygiad presennol hwn o dan adran 54 (1A) Deddf 1972 yn cael ei gynnal er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn. Daeth Gorchymyn i rym ym mis Ebrill 2009 yn gweithredu ein hargymhellion o ran y ffin rhwng Sir Powys a Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Siroedd Cadwedig

3.3 Diffinnir “sir gadwedig“ gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 fel a ganlyn:

ystyr “sir gadwedig” yw unrhyw sir a grëwyd gan Ddeddf 1972 fel sir yng Nghymru, fel yr oedd y sir honno yn union cyn i’r Ddeddf hon gael ei phasio ond yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, neu unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan Ddeddf 1972, gan ail-lunio ei ffiniau.

3.4 Ceir manylion am yr ardaloedd a effeithir gan yr adolygiad hwn o ffin y sir gadwedig yn y Cyfarwyddyd yn Atodiad 1, ac fe’u gwelir hefyd yn y cynllun yn Atodiad 4.

3.5 Cadwyd y “siroedd cadwedig” gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 er mwyn diffinio ardaloedd sirol at ddibenion rhai darpariaethau statudol penodol a restrir yn Atodlen 2 Deddf 1994. Canfuwyd y darpariaethau perthnasol yn y statudau canlynol:

Deddf Rhaglawiaethau 1997;
Deddf Siryfion 1887;
Deddf Amddiffyn 1842;
Deddf Trwyddedu 1964;
Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967;
Deddf Dehongli 1978;
Deddf Ynadon Heddwch 1979;
Deddf Llysoedd yr Ynadon 1980;
Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1973;
Deddf Etholaethau Seneddol 1986; yn ogystal â
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Ceir disgrifiad pellach o ddarpariaethau perthnasol y Deddfau hyn ar ffurf crynodeb yn Atodiad 2.

Gweithdrefn

3.6 Mae Adran 60 Deddf 1972 yn nodi'r canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. I bob pwrpas mae hyn yn gosod rhwymedigaeth ar y Comisiwn i ymgynghori ag unigolion sydd â diddordeb yng nghanlyniad yr adolygiad. Yn unol â’r cyfarwyddyd hwnnw, ysgrifenasom ar 19 Mawrth 2009 at yr Awdurdodau Unedol (Sir Powys a Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful), Arglwydd Raglawiaid siroedd cadwedig Powys a Morgannwg, yr Aelodau Seneddol ar gyfer yr etholaethau lleol, yr Aelodau Cynulliad, cymdeithasau’r awdurdodau lleol, awdurdodau’r heddlu, y pleidiau gwleidyddol a chyrff eraill sydd â diddordeb er mwyn eu hysbysu ynghylch ein bwriad i gynnal adolygiad, i esbonio’r rheswm dros yr adolygiad hwn ac awgrymu y byddai hyn yn cael ei wneud drwy gyfnewid gohebiaeth.

4. CYNIGION DRAFFT

4.1 Yn ein cynigion drafft, gwnaethom gynnig newid mân i'r ffin rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a Phowys i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sir Powys. Gwnaethom ddweud ein bod wedi ystyried y berthynas rhwng ffiniau siroedd cadwedig a ffiniau awdurdodau unedol, a'n bod yn parhau i fod o'r farn, lle bynnag bo'n bosibl, y dylid alinio ffiniau siroedd cadwedig â ffiniau awdurdodau unedig gan fod hyn o fudd yn nhermau adnabod a gweinyddu siroedd cadwedig.

4.3 Anfonwyd esboniad o bwrpas yr Adolygiad at bob cyngor, corff ac unigolyn y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.6 yn ceisio eu barn. Trwy hysbysiad cyhoeddus croesawom unrhyw sefydliad neu unigolyn arall â diddordeb yn yr adolygiad i gyflwyno eu barn. Roedd copïau o'r Cynigion Drafft ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y ddau awdurdod unedol ac yn swyddfeydd y Comisiwn.

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNNIG

5.1 Gwnaethom dderbyn ymatebion gan bedwar corff neu sefydliad:

5.2 Ysgrifennodd **Cyngor Sir Powys** i ddweud eu bod yn cefnogi newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Powys a Morgannwg Ganol yn ardal Pontsticill yn unol â'r ffin newydd rhwng sir Powys a Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

5.3 Ysgrifennodd **Prif Weithredwr Awdurdod Heddlu Dyfed Powys** i ddweud ei fod yn cefnogi cynnig y Comisiwn.

5.4 Ysgrifennodd **Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf (BILI)** i ddweud mai eu harsylwad cychwynnol oedd y byddai'r goblygiadau iechyd i Ferthyr Tudful yn finimol. Nodwyd hefyd eu bod yn cefnogi'r newid mewn egwyddor, ond y byddai hyn yn amodol ar unrhyw wariant iechyd cysylltiedig a allai wynebu'r BILI o ganlyniad i hyn.

5.5 Ysgrifennodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** i ddweud eu bod yn cefnogi newid arfaethedig y Comisiwn gan ei fod yn ymddangos fel y cynnig mwyaf rhesymol.

6. ASESIAD

6.1 Mae adran 54(1A) y Ddeddf yn gofyn i'r Comisiwn wneud cynigion 'ar gyfer gweithredu newidiadau yn ardal sir gadwedig sy'n ymddangos yn ddymunol i'r Comisiwn, o ystyried, yn benodol, ddibenion cadw siroedd cadwedig.' Diffinnir y dibenion hyn gan y darpariaethau statudol a restrir yn Atodlen 2 Deddf 1994 (Atodiad 3).

6.2 Pwrpas yr Adolygiad yw mynd i'r afael â'r anghysondeb a grëwyd drwy addasu'r cynigion sy'n rhan o "**Adolygiad o ran o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sir Powys"** a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008. Ceir y cynigion sy'n

rhan o'r adroddiad hwnnw yn y cynllun yn Atodiad 5, a gwnaethpwyd Gorchymyn sy'n eu gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 7 Ebrill 2009.

6.3 Rydym wedi ystyried yr effaith y bydd y newidiadau arfaethedig i sir gadwedig yn eu cael ar etholaethau seneddol. Wrth gynnal adolygiad o'r etholaethau seneddol yng Nghymru, mae gofyn i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru weithredu'r rheolau a welir yn Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986. Mae Rheol 4(1) (a) (i) yn nodi '*na ddylid cynnwys sir neu unrhyw ran o sir mewn etholaeth sy'n cynnwys rhan o unrhyw sir arall neu sir gyfan arall*' Diwygiwyd y rheol hon gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 i ddisodli'r term *sir gadwedig* gan *sir* yng Nghymru.

6.4 Mae gweithredu'r rheol hon yn golygu na ddylai ffiniau etholaethau groesi ffiniau sir gadwedig. Wrth ystyried y rhesymau pam y cadwyd y siroedd cadwedig at y diben hwn yng Nghymru, o'i gymharu â defnyddio siroedd fel yn Lloegr, mae angen ystyried y ffaith fod gan siroedd Lloegr nifer uwch o etholwyr na siroedd Cymru yn gyffredinol. Mae defnyddio siroedd cadwedig, sydd lawer yn fwy o ran maint na siroedd neu fwrdeistrefi sirol, yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, wrth greu etholaethau sy'n agos at y cwota etholiadol, nag y byddai'n bosibl gan ddefnyddio unedau siroedd llai.

6.10 Yn nhermau'r pwrpas penodol y mae'r siroedd cadwedig yn cael eu cadw ar eu cyfer, mae ein cynnig yn cyfateb yn union i'r etholaethau seneddol a bennir gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

6.11 Yn ein Cynnig yn 3.6 uchod, rydym wedi ystyried y berthynas rhwng ffiniau siroedd cadwedig ac awdurdodau unedol.

6.12 Gydag eithriad yr anghysondeb bach, a nodwyd o ganlyniad i'n Hadolygiad o'r ffin rhwng Sir Powys a Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ardal Pontsticill ym mis Gorffennaf 2008, a ddangosir yn y cynllun yn Atodiad 2b, nid oes unrhyw anghysonderau yn codi ar hyn o bryd rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a Phowys. Felly, rydym, yn cynnig newid i'r ffin rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a Phowys er mwyn ei halinio â'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Powys yn dilyn y Gorchymyn a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2009 (ceir cynllun yn dangos newid i ffin y sir gadwedig yn Atodiad 4).

7. CYNIGION

7.1 Fel yr ystyriwyd yn 6.12 uchod, rydym yn cynnig newid mân i'r ffin rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a Phowys i adlewyrchu'r newid diweddar i'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Sir Powys.

8. CYDNABYDDIAETHAU

8.1 Hoffem fynegi ein diolch i bob corff ac unigolyn a wnaeth gynrychiolaethau i ni.

9. Y CAMAU NESAF

9.1 Ar ôl cwblhau ein harolwg o ran o'r ffin rhwng siroedd cadwedig Powys a Morgannwg Ganol a chyflwyno ein hargymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym wedi cyflawni ein rhwymedigaeth statudol o dan y Cyfarwyddyd a gyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

9.2 Cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach, os gwêl fod hynny'n briodol, yw gweithredu'r cynigion hyn naill ai fel y'u cyflwynwyd gan y Comisiwn neu gydag addasiadau, ac os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu gweithredu'r cynigion hyn gydag addasiadau, gall roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal arolwg pellach.

9.3 Dylid cyfeirio unrhyw gynrychiolaethau pellach yn ymwneud â'r materion yn yr adroddiad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid eu cyflwyno cyn gynted â phosibl, ac yn sicr heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid cyfeirio cynrychiolaethau at:

Isadran Moderneiddio Llywodraeth Leol 2
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH HYWEL MEREDITH DAVIES BD (Dirprwy Gadeirydd)

MR D J BADER (Aelod)

E H Lewis BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Mehefin 2009

Gweinidogion Cymru

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

ADOLYGIAD O RAN O'R FFINIAU SIROEDD CADWEDIG

CYFARWYDDYD I GOMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn -

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

ystyr "y Comisiwn" yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru;

ystyr "sir gadwedig" yw'r ystyr a roddir iddo yn adran 270(1) y Ddeddf.

2. Wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56(1)(c) y Ddeddf[1], y mae'r pwerau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru[2], mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o ran o'r siroedd cadwedig hynny yng Nghymru, yn ardal Pontsticill, sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen gysylltiedig.

Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

24 Chwefror 2009

[1] 1972 c. 70; adran 56 diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
[2] Cafodd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (S.1. 1999/672) a chafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 c. 38).

Atodiad 1

Atodlen 1

Enw	Ardal
Morgannwg Ganol	Ardal bwrdeistrefi sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf
Powys	Ardal hen sir Powys, gydag ychwanegiad cymuned Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin a Llangedwyn o sir Clwyd

DARPARIAETHAU SY'N BERTHNASOL I SIROEDD CADWEDIG

1. Deddf Rhaglawiaethau 1997

Penodir Arglwydd-Raglaw gan y Goron ar gyfer pob sir yn Lloegr, pob sir yng Nghymru, a phob ardal yn yr Alban. At ddibenion Deddf 1997 ystyrir y siroedd yng Nghymru fel y siroedd cadwedig. Mae'r Arglwydd Raglaw yn gweithredu fel cynrychiolydd y Frenhines sy'n rheoli materion dinesig y Frenhines ac yn trefnu ymweliadau brenhinol.

2. Deddf Siryfion 1887

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer penodi Siryfion (y'u hadwaenir wedi eu penodi ar gyfer sir fel Uwch Siryfion) i gyflawni rhai swyddogaethau sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder, yn ogystal â swyddogaethau seremonïol. At ddibenion penodi Siryf yn flynyddol ystyrir y siroedd yng Nghymru fel y siroedd cadwedig.

3. Deddf Amddiffyn 1842

Yn Adran 19 Deddf Amddiffyn 1842 (prisio eiddo lle na cheir cytundeb) ac yn Adrannau 23 a 24, ystyr "sir" mewn perthynas â Chymru yw sir gadwedig.

4. Deddf Trwyddedu 1964

Yn Adran 85 (partïon a drefnir er budd), 188 (cau eiddo trwyddedig rhag terfysg) a 193 (datgymhwyso ynadon) Deddf Trwyddedu 1964, ystyr "sir" mewn perthynas â Chymru yw sir gadwedig.

5. Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967

Yn Adran 10 Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 (awdurdodaeth mewn perthynas â physgodfeydd) mewn perthynas â Chymru, mae'r cyfeiriad at sir yn cynnwys cyfeiriad at sir gadwedig.

6. Deddf Dehongli 1978

Yn Atodlen 1 Deddf Dehongli 1978 (diffiniad o eiriau ac ymadroddion), diffinnir "Cymru" fel 'ardal gyfun y siroedd a grëwyd gan Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i gweithredwyd yn wreiddiol, ond ddarostyngedig i unrhyw newid a wnaed o dan Adran 73 y Ddeddf honno (newid canlyniadol i ffin yn dilyn newid i ddyfrffos).'

7. Deddf Ynadon Heddwch 1979

Yn Adran 1 Deddf Ynadon Heddwch 1979 (ardaloedd comisiwn), Adran 4 y Ddeddf honno (ardaloedd sesiwn fach) ac Adran 19 y Ddeddf honno (darpariaethau cyffredinol o ran pwyllgorau llysoedd yr ynadon), mae cyfeiriadau at siroedd mewn perthynas â Chymru yn gyfeiriadau at siroedd cadwedig.

8. Deddf Llysoedd Ynadon 1980

Yn Adran 1 (cyhoeddi gwŷs i'r sawl a gyhuddwyd neu warant i'w arestio), Adran 2 (awdurdodaeth i ymdrin â chyhuddiadau) ac Adran 3 (troseddau a gyflawnir ar ffiniau ac ati) Deddf Llysoedd yr Ynadon 1980, mae cyfeiriadau at siroedd mewn perthynas â Chymru yn gyfeiriadau at siroedd cadwedig.

9. Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

Yn narpariaethau adran 177 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (trosedd etholiad lleol y gellir gosod cosb ddiannod arni), ystyr "sir" mewn perthynas â Chymru yw sir gadwedig. Yn Atodlen 1 y Ddeddf honno (rheolau etholiad seneddol), yn yr Atodiad, yn y rhan sy'n sôn am ffurflen y dystysgrif i'w hardystio ar y writ, mewn perthynas ag unrhyw etholaeth yng Nghymru mae "sir" yn y ffurflen hon yn cyfeirio at sir gadwedig.

10. Deddf Etholaethau Seneddol 1986

Ym mharagraff 4 is-baragraff (1)(a) Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (rheolau ar gyfer ailddosbarthu seddau), ystyr "sir" mewn perthynas â Chymru yw sir gadwedig.

11. Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999)

Mae isadran (1A) Adran 54 y Ddeddf hon (cynigion ar gyfer newidiadau o fewn ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru) yn datgan "Gall y Comisiwn i Gymru, o ganlyniad i arolwg a gynhaliwyd ganddynt o dan y Rhan hon o'r Ddeddf hon, wneud cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweithredu newidiadau yn ardal sir gadwedig yr ymddengys i'r Comisiwn eu bod yn ddymunol o ystyried, yn benodol, y dibenion y cedwir y siroedd cadwedig ar eu cyfer."

Mae Adran 56(1) y Ddeddf hon (pŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfarwyddyd i gynnal arolygon) yn datgan:

> "(1) Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn i Gymru gynnal arolwg o –
>
> (a) Gymru gyfan,
> (b) unrhyw un ardal llywodraeth leol neu fwy neu rannau o ardaloedd o'r fath yng Nghymru, neu
> (c) unrhyw un sir gadwedig neu fwy neu rannau o siroedd o'r fath,
>
> at ddiben ystyried a ddylid gwneud cynigion o'r fath mewn perthynas â'r ardal y cynhelir arolwg ohoni fel y'u hawdurdodir gan adran 54 uchod a pha gynigion, os o gwbl, i'w gwneud; a bydd y Comisiwn, os cred fod hynny'n addas, yn llunio cynigion o'r fath yn unol â hynny."

Yn Adran 224 y Ddeddf hon (trefniadau gan brif gynghorau ar gyfer cadw dogfennau) ystyr “sir”, mewn perthynas â Chymru, yw sir gadwedig.

Yn Adran 269 y Ddeddf hon (ystyr “Lloegr” a “Chymru”), ystyr “Cymru” yw ardal gyfun y siroedd cadwedig ac nid yw “Lloegr” yn cynnwys unrhyw ardal a gynhwysir o fewn unrhyw un o’r siroedd cadwedig.

Y DIBENION Y MAE'R SIROEDD CADWEDIG YN BERTHNASOL IDDYNT

Fel y nodwyd yn Adran 1, sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 y dibenion yr oedd y siroedd cadwedig i fod yn ardaloedd perthnasol iddynt. Fodd bynnag, mewn llawer o ardaloedd mae deddfwriaeth bellach wedi disodli'r darpariaethau a wnaed gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Yn yr atodiad hwn, rydym yn cynnal arolwg bras o'r ardaloedd hynny o ddeddfwriaeth a oedd yn berthnasol ar adeg pasio Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Rydym yn amlygu'r mathau hynny o weinyddiaeth y mae'r siroedd cadwedig yn berthnasol iddynt o hyd ac felly y dylid eu hystyried fel rhan o'r Arolwg o'r Siroedd Cadwedig.

Deddf Rhaglawiaethau 1997
Rheolir ardaloedd a dyletswyddau presennol Arglwydd Raglawiaid Prydain Fawr gan Ddeddf Rhaglawiaethau 1997. Dywed Adran 1(1) o'r Ddeddf:
"*Penodir arglwydd raglaw gan Ei Mawrhydi ar gyfer pob sir yn Lloegr, pob sir yng Nghymru a phob ardal yn yr Alban (ac eithrio dinasoedd Aberdeen, Dundee, Caeredin a Glasgow)."*

Dywed Adran 6 i Atodlen 1:
"*Siroedd Cymru at ddibenion y Ddeddf hon yw'r siroedd cadwedig, hynny yw, y siroedd yng Nghymru fel yr oeddent yn union cyn pasio Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (ond yn ddarostyngedig i unrhyw ail-luniad o'u ffiniau gan neu o dan y Ddeddf honno neu Ddeddf Llywodraeth Leol 1972)*."

Felly, bydd unrhyw newid yn ardaloedd y siroedd cadwedig yn achosi newid yn ardaloedd Arglwydd Raglawiaid Cymru.

Deddf Siryfion 1887
Rheolir ardaloedd a dyletswyddau Siryfion Cymru a Lloegr gan Ddeddf Siryfion 1887. Mae Adran 3(1) o'r Ddeddf yn datgan:

"Penodir siryf yn flynyddol i bob sir".

Dywed adran 3(4) o Ddeddf Siryfion 1887:
"Yn y Ddeddf hon, mae "sir", mewn perthynas â Chymru, yn golygu sir gadwedig (fel y'i diffiniwyd gan Adran 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994)."

Felly, penodir Siryfion Cymru i'r siroedd cadwedig hefyd. Bydd unrhyw newid yn ardaloedd y siroedd cadwedig yn achosi newid yn ardaloedd y Siryfion.

Deddf Amddiffyn 1842
O dan y Ddeddf hon, rhoddir sawl dyletswydd i Arglwydd Raglaw a Dirprwy Raglawiaid sir gadwedig mewn perthynas ag amddiffyn y deyrnas. Y brif ddyletswydd ymhlith y rhain yw'r hawl i gymryd tir er mwyn amddiffyn y deyrnas heb ganiatâd y perchenogion os bydd angen gwneud hynny er budd rheidrwydd a hwylustod. Fel y nodwyd uchod, bydd newidiadau i'r siroedd cadwedig yn newid ardaloedd y Rhaglawiaethau, er na ddylai effaith hyn ar ddyletswyddau esoterig yr Arglwydd Raglaw fod yn un o brif bryderon yr arolwg.

Deddf Pysgodfeydd y Môr (Pysgod Cregyn) 1967
Mae Adran 10 o'r Ddeddf hon yn dweud yr ystyrir bod y rhan honno o'r lan môr y mae gorchymyn pysgodfeydd y môr yn berthnasol iddi yn perthyn i gyrff yr ardaloedd gweinyddol amrywiol sy'n gyfagos i'r lan môr (gan gynnwys y siroedd cadwedig). Am nad yw'r ardaloedd barnwrol bellach yn gysylltiedig â'r siroedd cadwedig (gweler isod) mae'n anodd meddwl am gyd-destun lle y gallai hyn fod yn berthnasol. Yn sicr, nid yw'n fater a ddylai dylanwadu ar ystyriaeth o'r hyn y dylai ardaloedd y siroedd cadwedig fod.

Deddf Dehongli 1978
Diwygiwyd y Ddeddf hon gan Atodlen 2 i Adran 9 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1978 er mwyn i'r diffiniad o "Gymru" ymddangos yn Atodlen 1:
"Mae "Cymru" yn golygu ardal gyfunol y siroedd a grëwyd gan Adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (1972 c.70), fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, ond yn ddarostyngedig i unrhyw newid a wnaed o dan adran 73 o'r Ddeddf honno (newid canlyniadol i ffin yn dilyn newid i ddyfrffos)."

Noder nad yw'r diffiniad hwn mewn gwirionedd yn cynnwys y siroedd cadwedig ond siroedd Deddf 1972 fel y'u crëwyd yn gyntaf. Yr unig fodd y gellid newid yr ardal a ddiffinnir fel "Cymru" fyddai drwy newid cwrs dyfrffos. Felly, ni fydd unrhyw newidiadau i'r siroedd cadwedig yn effeithio ar y diffiniad hwn. Mae'n werth nodi bod y diffiniad hwn o "Gymru" yn wahanol i'r un yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 (gweler isod).

Deddf Ynadon Heddwch 1979
Ddeddf Llys Ynadon 1980
Deddf Trwyddedu 1964
Disodlwyd y rhannau hynny o Ddeddf Ynadon Heddwch 1979 a Deddf Llys Ynadon 1980 sy'n berthnasol i'r siroedd cadwedig gan Ddeddf Ynadon Heddwch 1997. Roedd y Ddeddf hon, fel y'u deddfwyd yn wreiddiol, yn cyfeirio at y siroedd cadwedig fel sail i "ardaloedd comisiwn", "ardaloedd sesiwn fach" ac "ardaloedd pwyllgorau llysoedd ynadon". Fodd bynnag, mae'r adrannau hyn o Ddeddf 1997 bellach wedi'u diwygio gan Ddeddf Mynediad i Gyfiawnder 1999. Ni chyfeirir at y siroedd cadwedig yn Neddf Ynadon Heddwch 1997 bellach.

Mae Adran 1 o Ddeddf ddiwygiedig Ynadon Heddwch 1997 bellach yn mynnu y bydd ardaloedd comisiwn fel y'u nodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor gan orchymyn a wnaed gan offeryn statudol. Yn yr un modd, mae Adran 4 o Ddeddf ddiwygiedig 1997 bellach yn mynnu y bydd y sesiwn fach fel y'i nodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor gan orchymyn a wnaed gan offeryn statudol. Yn yr un modd, mae Adran 27A o'r Ddeddf ddiwygiedig bellach yn mynnu y bydd ardaloedd pwyllgorau ynadon heddwch fel y'u nodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor gan orchymyn a wnaed gan offeryn statudol.

O dan OS 2001/695, diffinnir ardaloedd pwyllgorau llysoedd ynadon Cymru drwy gyfeirio at brif ardaloedd llywodraeth leol Cymru ac NID y siroedd cadwedig.
Dyfed Powys: *Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys*
Gwent: *Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Tor-faen*
Gogledd Cymru: *Ynys Môn, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam, Conwy*
De Cymru: *Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Abertawe, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg*

O dan OS 2001/696, diffinnir yr ardaloedd comisiwn drwy gyfeirio at ardaloedd pwyllgorau llysoedd ynadon ac ardaloedd llywodraeth leol:
Dyfed Powys: *ardaloedd pwyllgor llysoedd ynadon Dyfed Powys*
Gwent: *ardal pwyllgorau llysoedd ynadon Gwent*
Gogledd Cymru: *ardaloedd pwyllgor llysoedd ynadon Gogledd Cymru*
De Cymru: *y rhan honno o ardal pwyllgorau llysoedd ynadon De Cymru sy'n cynnwys ardaloedd llywodraeth leol Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg*
Gorllewin Morgannwg: *y rhan honno o ardal pwyllgor llysoedd ynadon De Cymru sy'n cynnwys ardaloedd llywodraeth leol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot*

O dan OS 2001/694 rhestrir yr ardaloedd sesiwn fach o fewn pob ardal pwyllgorau llysoedd ynadon. Yn gyffredinol, nid yw'r ardaloedd sesiwn fach yn gysylltiedig â siroedd cadwedig ac ardaloedd llywodraeth leol (ac eithrio'r graddau bod yn rhaid iddynt berthyn i ardal pwyllgor llysoedd ynadon). Cynhelir map sy'n dangos yr ardaloedd sesiwn fach gan yr Arglwydd Ganghellor.

Felly, nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n diffinio ardaloedd ar gyfer pwyllgor llysoedd ynadon, ardaloedd comisiwn neu ardaloedd sesiwn fach yn cyfeirio at y siroedd cadwedig. Mewn rhai mannau, mae'r ardaloedd hyn eisoes yn croesi ffiniau siroedd cadwedig, Er enghraifft, mae ardal gyfan llywodraeth leol Caerffili eisoes yn ardal pwyllgorau llysoedd ynadon ac ardal comisiwn Gwent. Nid oes angen diwygio'r siroedd cadwedig i hwyluso hyn. Felly, wrth ystyried newidiadau i'r siroedd cadwedig, nid yw'r trefniadau ar gyfer ardaloedd pwyllgorau llysoedd ynadon, ardaloedd comisiwn neu ardaloedd sesiwn fach yn ffactor perthnasol bellach.

Dosbarthau trwyddedu Deddf Trwyddedu 1964 yw'r ardaloedd sesiwn fach. Ni seilir y rhain ar y siroedd cadwedig bellach.

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
Deddf Etholaethau Seneddol 1986
Mae'r Deddfau hyn yn ymwneud â rôl y siroedd cadwedig fel sail i etholaethau seneddol yng Nghymru. Mewn egwyddor, dylid lleoli'r rhain o fewn siroedd cadwedig er bod y rheoliadau (Atodlen 2 i Ddeddf 1986) yn rhoi cryn dipyn o ddisgresiwn i'r Comisiynau Ffiniau. Nodir etholaethau seneddol presennol Cymru yng Ngorchymyn Etholaethau Seneddol (Cymru) 1995 (OS 1995/1036). Lleolwyd yr etholaethau hyn o fewn "siroedd" Deddf Llywodraeth Leol1972 fel yr oeddent yn bodoli bryd hynny, er y disgrifir yr etholaethau eu hunain yn nhermau "dosbarthau" llywodraeth leol a'u wardiau fel yr oeddent yn bodoli bryd hynny. Mae'r ddaearyddiaeth y seiliwyd yr etholaethau arni wedi newid yn eithafol. Tra bod y siroedd cadwedig yn parhau i fodoli at ddiben etholaethau seneddol, bu newidiadau eisoes yn ardaloedd y rhain o'u cymharu ag ardaloedd y "siroedd" ar adeg OS 1995/1036. Chwalwyd yr ardaloedd "dosbarth" i gyd. Nid yw'r naill na'r llall o'r rhain wedi golygu bod angen newid etholaethau seneddol. Nid oes angen diwygio daearyddiaeth OS 1995/1036 i gyd-fynd â newidiadau i siroedd cadwedig neu ardaloedd llywodraeth leol. Felly, ni fydd unrhyw newidiadau a argymhellir gan y Comisiwn yn golygu bod angen newid etholaethau seneddol. Nodwn y cynhelir arolwg cyffredinol o etholaethau seneddol dros y blynyddoedd nesaf. O gofio bod y ffiniau presennol wedi'u diffinio yn nhermau ardaloedd dosbarth llywodraeth leol blaenorol, mae'n sicr y bydd unrhyw ddiffiniadau yn y dyfodol yn nhermau "prif ardaloedd" llywodraeth leol presennol.

Deddf Llywodraeth Leol 1972
Fel y nodwyd uchod, mae Adran 20(6) o Ddeddf 1972 yn darparu ar gyfer cadw'r siroedd cadwedig at ddibenion gweinyddol penodol (a restrir yn Rhan II o Atodlen 4 i'r Ddeddf). Fel y nodwyd uchod hefyd, mae Adran 56(1) yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg o ardaloedd y siroedd cadwedig ac mae adran 54(1A) yn galluogi'r Comisiwn i argymell newidiadau yn y siroedd cadwedig yn dilyn arolwg o'r fath. Ni fydd unrhyw newidiadau yn ardaloedd y siroedd cadwedig yn newid y darpariaethau hyn ac nid ydynt yn ffactorau perthnasol yn yr arolwg.

Dywed Adran 269 o Ddeddf 1972:
"Yn y Ddeddf hon mae "Cymru" yn golygu ardal gyfunol y siroedd cadwedig ac nid yw "Lloegr" yn cynnwys unrhyw ardal a gynhwysir yn unrhyw un o'r siroedd cadwedig."

Noder bod hyn ychydig yn wahanol i'r diffiniad o "Gymru" yn Neddf Dehongli 1978. Dim ond ar gyfer newid yn yr ardal y mae'n ei diffinio fel "Cymru" yn dilyn newid i ddyfrffos y mae'r Ddeddf olaf yn caniatáu (gweler uchod). Gellid newid yr ardal y mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei diffinio fel "Cymru" drwy newid ardal un sir gadwedig, neu fwy, pe byddai hyn yn cynnwys ychwanegu ardal at y sir gadwedig honno, neu ddidynnu ardal o'r sir gadwedig honno, a fu eisoes yn rhan o'r ardal a ddiffinnir gan y Ddeddf fel "Lloegr". Fodd bynnag, ni all senario o'r fath ddigwydd o dan yr arolwg presennol. Ni fydd unrhyw newidiadau i'r siroedd cadwedig yn sgil yr arolwg hwn yn newid y diffiniadau o "Gymru" yn Neddf Dehongli 1978 a Deddf Llywodraeth Leol 1972, ac felly, nid yw'r mater hwn yn ffactor perthnasol yn yr arolwg hwn.

Mae Adran 219 Deddf Llywodraeth Leol1972 (siryfion ac is-siryfion) yn cynnwys darpariaethau amrywiol yn ymwneud â siryfion ac is-siryfion. Mae isadrannau (1), (5) a (9) yn berthnasol i'r siroedd cadwedig. Atgynhyrchwn y rhain:
"(1) *Gelwir siryfion a benodir i sir neu Lundain Fwyaf yn uwch siryfion, a bydd unrhyw gyfeiriad at siryf mewn unrhyw ddeddf neu offeryn yn cael ei ddehongli'n briodol mewn perthynas â siryfion ar gyfer sir neu Lundain Fwyaf*"
(5) Pan leolir ardal y mae is-siryf yn gweithredu ar ei chyfer mewn dwy sir neu fwy, bydd uwch siryf y sir sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r ardal honno yn cyflawni'r ddyletswydd a orfodir gan adran 23 o Ddeddf Siryfion 1887 o ran penodi'r is-siryf ar gyfer yr ardal honno, ar ôl ymgynghori ag unrhyw uwch siryf arall sy'n ymwneud â'r mater, ac os bydd unrhyw gwestiwn yn codi o ran pa sir sy'n hawlio'r rhan fwyaf o ardal is-siryf, bydd yr Arglwydd Ganghellor yn dod i benderfyniad arno.
(9) Yn isadrannau (1) a (5) uchod, mae "sir" mewn perthynas â Chymru yn golygu sir gadwedig."

Mae Adran 219(9) yn gysylltiedig â'r defnydd o'r siroedd cadwedig ar gyfer Deddf Siryfion 1887. Yn amlwg, bydd newidiadau i'r siroedd cadwedig yn effeithio ar Siryfion Cymru, ac felly, dylai'r rhain fod yn ffactor yn yr arolwg.

Dywed isadran (1) a (3) o Adran 224 (Trefniadau gan brif gynghorau ar gyfer gwarchod dogfennau) o Ddeddf Llywodraeth Leol1972:
"(1) Heb ragfarn yn erbyn pwerau'r Custos Rotulorum i roi cyfarwyddiadau o ran dogfennau unrhyw sir, bydd prif gyngor yn gwneud trefniadau iawn mewn perthynas ag unrhyw ddogfennau sy'n perthyn i neu sy'n rhan o warchodaeth y cyngor neu unrhyw un o'u swyddogion.

(3) Yn isadran (1) uchod, mae "sir" mewn perthynas â Chymru yn golygu sir gadwedig."

Nodwyd gennym yn Adran 2 mai'r Arglwydd Raglaw yw'r Custos Rotulorum hefyd ar gyfer pob sir gadwedig yng Nghymru. Prif rôl y Custos Rotulorum yw'r cyfrifoldeb dros gofnodion llysoedd y Sesiwn Chwarter a gynhaliwyd o'r unfed ganrif ar bymtheg i 1971. Mae'r dogfennau hanesyddol pwysig hyn yn seiliedig ar y Siroedd hanesyddol. Bydd newidiadau i'r siroedd cadwedig yn effeithio ar ardal y Custos Rotulorum ac felly, ar sail ddaearyddol y cyfrifoldeb dros y cofnodion hyn.



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, 100012255, 2009



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ornans
gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, 100012255, 2008